

Mae CEDAR wedi ymrwymo i gefnogi gofal claf-ganolog, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, trwy ymchwil a gwerthuso ymyriadau iechyd, technolegau a gwasanaethau'r GIG.

CEDAR: Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd

Newyddion CEDAR

Llongyfarchiadau mawr i'n cyfarwyddwr, [Dr. Kathleen Withers](#), ar gwblhau PhD mewn Meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd!



Mae ei thraethawd ymchwil yn canolbwyntio ar Fesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs). Mae'r gwaith cyffredinol, o'r enw 'Datblygu a Gweithredu Mesurau a Adroddir gan Gleifion i Gefnogi Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth', yn dyst gwirioneddol i ymroddiad hirhoedlog Kathleen i ymchwil gofal iechyd.

Mae tîm CEDAR i gyd mor falch o'n cyfarwyddwr am gyrraedd y garreg filltir ryfeddol hon wrth barhau i arwain a chefnogi ein tîm bob dydd.

- Hoffem groesawu dau aelod newydd o dîm CEDAR, [Amelia Perry](#), gweinyddwr newydd CEDAR, a [Lucy Collins](#), Adolygydd Systematig sydd wedi'i lleoli yn yr [Uned Arbenigol ar gyfer Tystiolaeth Adolygu \(SURE\)](#). Dewch o hyd i holl broffiliau tîm CEDAR ar ein gwefan [yma](#).
- Llongyfarchiadau i [Michael Beddard](#), Uwch Wyddonydd Gwerthuso ac [Agatha Hills](#), Gwyddonydd Gwerthuso am basio eu hardystiad Ymarferydd Agile [PRINCE2](#). Mae'r cymhwyster rheoli prosiectau hwn, sy'n cael ei gydnabod yn fyd-eang, yn gamp wych ac yn adlewyrchu eu hymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus, gan gryfhau'r arbenigedd o fewn tîm CEDAR.

Cyhoeddiadau:

- Poole et al (2026) "[Implementation of procalcitonin-guided antibiotic stopping advice in sepsis: A mixed methods process evaluation in a clinical trial context.](#)" Cafodd yr erthygl hon ei chyhoeddi yn y Journal of the Intensive Care Society. Mae'r papur hwn yn rhannu canlyniadau'r astudiaeth gwerthuso prosesau [PREADAPT-Sepsis](#).
- Cyhoeddwyd "[Study to explore patient views of PROM data access, use, and VISualisatION \(PROVISION\): the PROVISION study](#)" gan Knight et al (2026) yng nghyfnodolyn IJQHC Communications.

Cenhadaeth CEDAR yw cydweithio â thimau clinigol i ddarparu ymchwil a gwerthuso ymatebol, effeithiol, o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y claf, er mwyn gwella canlyniadau i bobl yng Nghymru ac yn ehangach.

Yn y Rhifyn Hwn

Newyddion CEDAR

Uchafbwyntiau diweddar gan y tîm

Uchafbwyntiau Prosiect

Darganfyddwch pa brosiectau sydd wedi camu ymlaen yn CEDAR y chwarter hwn.

Sbotolau Staff

Clywch gan Dr Susan Peirce, Cymrawd Ymchwil CEDAR

Harddangosfa Dulliau

Darllenwch am ein gwaith gyda methodolegau meintiol yn ein harddangosfa dulliau

- Cafodd M, Keski-Keturi et al (2026) [“Effects of Sedation, Temperature and Pressure After Cardiac Arrest and Resuscitation on Major Adverse Kidney Events \(STEP-CARE-MAKE\): A Protocol for a Pre-Planned Sub-Study of a Randomized Clinical Trial.”](#), ei gyhoeddi yn y cyfnodolyn Acta Anaesthesiologica Scandinavica.

Presenoldeb mewn cynadleddau:

Mae'r tîm wedi mynychu ac wedi cyflwyno mewn amrywiaeth o wahanol gynadleddau yn ystod y chwarter hwn, gan gynnwys:

AWMPCE


Mynychodd nifer o dîm CEDAR **Gynhadledd Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol Cymru Gyfan eleni**, a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn Stadiwm Dinas Caerdydd.

Ynghyd â staff eraill o fewn PIER, bydd CEDAR yn cefnogi'r adran i gynnal cynhadledd Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol Cymru Gyfan yng Nghaerdydd yn 2027. Cliciwch y ddolen yma i gofrestru eich diddordeb.

MediWales



Mynychodd y tîm gynhadledd **MediWales connects** eleni hefyd. Ynghyd â'n cydweithwyr yng [Nghanolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru](#), siaradodd [Huey Yi Chong](#), Economegydd Iechyd, a [Megan Dale](#), Prif Economegydd Iechyd, am roi gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth ar waith a sut y gall economeg iechyd gefnogi gwneud penderfyniadau. Mynychwyd y sesiwn gan lawer a chafwyd adborth rhagorol, ac roedd y diwrnod yn brysurach nag erioed, gan dynnu sylw at yr ymchwil a'r gwerthuso arloesol cyffrous sy'n digwydd ledled Cymru.



Cynhadledd PROMs



Mynychodd aelodau'r tîm **10^{fed} Gynhadledd PROMs y DU** yn Sheffield gan gyflwyno dau boster: *“Dealltwriaeth ansoddol o ddewis rhanddeiliaid tuag at holiaduron a ddefnyddir i gefnogi gofal sy'n canolbwyntio ar y person mewn cleifion allanol ffisiotherapi a phodiatreg,”* ac *“Iaith mewn lechyd: Recriwtio Gwirfoddolwyr sy'n Siarad Cymraeg ar gyfer Dilysu PROMs.”* Mae hon bob amser yn gynhadledd ddiddorol sy'n cefnogi ein dealltwriaeth o dirwedd genedlaethol PROMs ac yn cynnig cyfleoedd rhwydweithio defnyddiol.

Mae CEDAR yn falch iawn o gyhoeddi, ynghyd â Pherfformiad a Gwellu GIG Cymru, a Chanolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru, y byddwn yn cynnal 1^{eg} gynhadledd PROMs y DU yng Nghaerdydd yn 2027. Mae'n frain i CEDAR i helpu i ddod â'r gymuned ymchwil iechyd ynghyd i ymchwilio sut y gall Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion ysgogi gwelliannau ystyrlon ar draws gofal iechyd.



Cynhadledd Ryngwladol ar Globaleiddio/ dad-globaleiddio mewn leithoedd, Addysg, Diwylliant a Chyfathrebu (GLECC2026)

Mynychodd Cydlynnydd y Gymraeg CEDAR, Hawys, cynhadledd GLECC26 a gyflwynodd ar: Cyfieithiadau Cywir, Canlyniadau Cywir: Risgiau Cyfieithiadau anaddas o PROMs yng Nghymru.



Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd CEDAR

Yn gynharach eleni, daeth tîm CEDAR ynghyd am ddiwrnod cwrdd i ffwrdd yng Ngwesty'r Leonardo yng Nghaerdydd. Dechreuodd y diwrnod gyda sesiwn werthfawr dan arweiniad [Dr Jamie Gallagher](#) ar effaith, ymgysylltiad, a defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol. Anogodd y drafodaeth y tîm i feddwl am sut rydym yn cyfathrebu am ein gwaith, yn cysylltu â chynulleidfaoedd ehangach, ac yn sicrhau'r effaith fwyaf posibl o'n hymchwil a'n prosiectau.




Yn y prynhawn, trodd y sylw at gryfhau cydweithio ac archwilio ffyrdd o barhau i wella sut rydym yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Fe wnaeth gweithgaredd torri'r iâ, lle rhannodd aelodau'r tîm rywbeth roedden nhw wedi'i ddysgu dros y flwyddyn ddiwethaf, greu digon o drafodaeth ac ambell uchafbwynt annisgwyl, gan gynnwys arddangosiad drôn dan do!

Roedd y diwrnod cwrdd i ffwrdd yn gyfle gwerthfawr i gamu'n ôl o weithgareddau o ddydd i ddydd, rhannu syniadau, cryfhau cysylltiadau tîm, a nodi ffyrdd newydd o weithio a fydd yn cefnogi ein prosiectau wrth symud ymlaen.



Cyfarfod Methodoleg

Cynhaliodd CEDAR ein cyfarfod methodoleg cyntaf y chwarter hwn, lle ymunodd cydweithwyr o [Ganolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru](#) ac [Iechyd a Gofal Digidol Cymru](#) â ni ar-lein. Rhoddwyd cyflwyniadau ar y set ddilysu newydd yn y DU ar gyfer PROM EQ-5D-5L, a'r effaith sylweddol y bydd hyn yn ei chael ar Asesu Technoleg Iechyd (HTA) a'r gwerth cyffredinol. Cawsom hefyd rai trafodaethau defnyddiol ar y manteision cymharol ar EQVAS o'i gymharu â mynegai EQ-5D, y llwybr PROMs cenedlaethol a chyfraniadau parhaus CEDAR at waith safoni data PROMs yn GIG Cymru.



Sbotolau ar Brosiect:

MOMENTUM

Mae gan oroeswyr Uned Gofal Dwys (ICU) anghenion adsefydlu cymhleth iawn sy'n parhau ar ôl cael eu rhyddhau o'r ICU. Fodd bynnag, gall y ddarpariaeth o gymorth adsefydlu dod yn dameidiog wrth drosglwyddo o'r Uned Gofal Dwys i wardiau meddygol a llawfeddygol cyffredinol, gan arwain at angen mawr heb ei ddiwallu. Gyda ffocws ar brosesau trosiannol yr Uned Gofal Dwys, roedd cydweithwyr ICU mewn cydweithrediad â CEDAR eisiau cyd-ddylunio mentrau gwella sy'n sicrhau bod adsefydlu cydlynol, sy'n canolbwyntio ar y claf, yn cael ei ddarparu ac sy'n diwallu anghenion parhaus goroeswyr yr Uned Gofal Dwys. I wneud hyn, fe wnaethom ddefnyddio'r fethodoleg Cyd-ddylunio yn Seiliedig ar Brofiad, i ddod o hyd i atebion sy'n fwy tebygol o fod yn dderbyniol, yn effeithiol, ac yn gynaliadwy.

Fe wnaethon ni ymgysylltu â ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, dietegwyr, therapyddion lleferydd ac iaith, seicolegwyr clinigol o bob rhan o'r Uned Gofal Dwys a wardiau meddygol a llawfeddygol, yn ogystal â chynnwys defnyddwyr gwasanaeth sydd â phrofiad uniongyrchol i ddeall yr anghenion, yr heriau, a'r cyfleoedd cyfredol o ran darparu adsefydlu yn ystod gofal trosiannol o'r Uned Gofal Dwys.

Gyda'i gilydd, cynigiodd staff a chynrychiolwyr cleifion wyth menter gwella, gan gynnwys; cardiaid cyfeiriadedd cyffredinol, deunydd hyfforddi a gynhyrchwyd ar y cyd gan ddefnyddio straeon cleifion, taflenni gwybodaeth a chyfeiriadau a roddir wrth ryddhau cleifion, crynodeb presgripsiwn adsefydlu, trosglwyddiad electronig, sefydlu cydlynol adsefydlu, cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol ar faterion trosiannol a dyddiaduron adsefydlu. Mae angen gwaith yn y dyfodol i werthuso'r mentrau gwella hyn yn ffurfiol ac yn gadarn trwy gylchoedd gwella ansawdd, gan gynnwys canlyniadau iechyd a chanlyniadau ansawdd bywyd tymor hir ac asesiad o gost-effeithiolrwydd.



Gwerthusiad Fframwaith Gofal Sylfaenol Brys

Mae CEDAR yn falch o rannu ein [hadroddiad gwerthuso](#) ar [beilot Fframwaith Cymhwysedd Ymarferwyr Gofal Sylfaenol Brys Cymru Gyfan](#), a gomisiynwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Datblygwyd y fframwaith hwn i gefnogi gweithlu gofal brys cynyddol Cymru, gan roi dull strwythuredig i staff rheng flaen ddangos cymwyseddau clinigol a datblygu eu gyrfaedd. Yn y pen draw, nod y fframwaith yw helpu i reoli'r pwysau dwys sy'n wynebu ein hadrannau achosion brys a'n meddygfeydd teulu ar hyn o bryd.

Dros 12 mis, cynhaliodd ein tîm, dan arweiniad Michael Beddard, Uwch Wyddonydd Gwerthuso, werthusiad dulliau cymysg, gan gasglu mewnwelediadau gan ymarferwyr ac aseswyr clinigol ar draws Byrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Hywel Dda. Gwelsom fod staff yn parchu cynnwys clinigol y fframwaith fel offeryn 'mapio a chanfod bylchau' gwych ar gyfer nodi anghenion dysgu. Fodd bynnag, mae dod o hyd i'r amser i ymgysylltu â phortffolio papur yn ystod sifftiau prysur yn parhau i fod yn rhwystr gweithredol sylweddol.

Er mwyn pontio'r bwlch hwn cyn cyflwyno'r cynllun yn ehangach ledled Cymru, mae ein hargymhellion blaenoriaethol yn cynnwys:

- Sefydlu amser Gweithgareddau Proffesiynol Cefnogol (SPA) wedi'i ddiogelu i ffwrdd o amgylcheddau clinigol.
- Newid o ffolder papur i fformat modern, digidol/ ar ap.
- Cyflwyno sifftiau asesu ar y cyd i ganiatáu asesu cymhwysedd mewn amser real.

Diolch yn fawr iawn i'r holl ymarferwyr ac aseswyr a rannodd eu profiadau gyda ni.



Partneriaeth Pŵer y Pelfis

Mae cyflyrau iechyd y pelfis, gan gynnwys anymataliaeth wrinol ac anymataliaeth y coluddyn, prolaps organau'r pelfis, a phoen cronig yn y pelfis, yn effeithio ar fwy na 60% o fenywod yn ystod eu hoes, gyda chyfraddau'n arbennig o uchel ar ôl genedigaeth a'r menopos. Er gwaethaf yr effaith sylweddol ar ansawdd bywyd, addysg, a chyfranogiad mewn gwaith, mae llawer o fenywod yn oedi cyn ceisio gofal oherwydd embaras, stigma neu ddiffyg ymwybyddiaeth. Mae rhwystrau i fynediad yn arbennig o amlwg ymhlith cymunedau dan anfantais, lle mae anawsterau iaith, tabŵau diwylliannol, gwahaniaethu, amddifadedd ac anabledd yn croestorri i greu anghydraddoldebau ychwanegol.

Nod y prosiect hwn yw nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau iechyd y pelfis ymhlith menywod heb gynrychiolaeth ddigonol yn Ne-ddwyrain Cymru.

Cynhelir deg grŵp ffocws sy'n cynnwys menywod o gymunedau dan anfantais ledled De-ddwyrain Cymru, gyda chyfanswm o rhwng 96 a 144 o gyfranogwyr. Bydd ymchwilwyr CEDAR yn hwyluso'r grwpiau ffocws hyn ac yn darparu cefnogaeth ychwanegol lle bo angen yn ystod y sesiynau hyn. Bydd CEDAR hefyd yn cynnal dadansoddiad ansoddol ar y data a gasglwyd. Bydd yr astudiaeth yn darparu cipolwg newydd a manwl ar y rhwystrau y mae cymunedau dan anfantais yn eu hwynebu wrth gael mynediad at ofal iechyd y pelfis, gan dynnu sylw at ffactorau logistaidd a chymdeithasol-ddiwylliannol.

Arddangosfa Dulliau: Methodolegau meintiol

Mae methodolegau meintiol yn defnyddio data rhifiadol, gan gynnwys data sy'n deillio o arsylwadau yn y byd go iawn i nodi patrymau a phrofi damcaniaethau, a all helpu i lywio penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae gan CEDAR ystod eang o brofiad gyda dadansoddi data cynradd ac eilaidd, yn amrywio o drin a pharatoi data, dewis dulliau sy'n gweddu orau i gwestiynau ymchwil a gwerthuso, ac ymgymryd â dadansoddiadau ar raddfa fach a mawr. Mae ein sgiliau'n cynnwys:

- **Glanhau data** - Cysylltu, glanhau a pharatoi setiau data yn barod i'w dadansoddi, yn ogystal ag asesu ansawdd data, gan gynnwys ystyried data coll (e.e. cyfrifiad lluosog)
- **Delweddu data** - Cynhyrchu delweddu o ansawdd cyhoeddiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys cynghori ar ddelweddu dangosfwrdd o PROMs a PREMs a gesglir yn rheolaidd.
- **Ystadegaeth ddisgrifiadol** - Ymgymryd ag ystadegau cryno syml (cymedr, canolrif, cyfrif a chanran) a phrofi damcaniaethau.
- **Dadansoddiad ystadegol uwch** - Cymhwyso atchweliad aml-amrywedd, atchweliad aml-lefel, dadansoddiad goroesi, dadansoddiad cyfryngu a chymedroli, dadansoddiad ffactorau a chlwtwr ar gyfer dyluniadau astudiaethau trawsdoriadol, cohort a rheoli achosion.
- **Meta-ddadansoddiad a meta-ddadansoddiad rhwydwaith** - Defnyddio methodolegau meta-ddadansoddiad a meta-ddadansoddiad rhwydwaith trwy ddulliau Frequentist a Bayesian, ynghyd â chynhyrchu diagramau plot coedwig a rhwydwaith.


- **Adrodd a Lledaenu** - Gallwn helpu i ddehongli a lledaenu canfyddiadau'n effeithiol drwy adroddiadau, cyhoeddiadau academiaidd, infograffeg hygyrch, cyflwyniadau cynhadledd a phosteri.

Mae pob prosiect wedi'i gynllunio o fewn cyfyngiadau argaeledd data, a chyda amserlen a chyllidebau penodol mewn golwg. Mae ein cymorth yn amrywio o fewnwelediadau data cyflym (e.e., ystadegau cryno a delweddu) i ddadansoddiad ystadegol cadarn, er enghraifft defnyddio setiau data arferol i ateb cwestiynau ymchwil a gwerthuso penodol.

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o feddalwedd rheoli a dadansoddi data gan gynnwys R, STATA, SPSS, SQL, ac MS Excel. Cedwir yr holl ddata yn gyfrinachol yn unol â gofynion a deddfwriaeth llywodraethu gwybodaeth (IG) cyfredol. Gellir defnyddio data adnabyddadwy, dienw neu dan ffug-enw. Ceisir caniatâd i werthuso gwasanaethau'r GIG neu gymeradwyaeth foesebol yn ôl yr angen.

Sbotolau Staff

Rydym yn siarad â **Sue Peirce**, cymrawd ymchwil yn CEDAR



Dywedwch wrthym amdanoch chi a'ch rôl:

Mae fy nghefnidir mewn ffiseg ac ochr offeryniaeth Ffiseg Feddygol. Dechreuais yn CEDAR ym mis Mehefin 2005, ar ôl PhD mewn mesur a modelu ffisioleg gardiofasgwlaidd. Roeddwn i fod i werthuso offer newyddenedigol, ond roedd CEDAR yn symud o weithio i'r Asiantaeth Dyfeisiau Meddygol (MDA) i'r Ganolfan Caffael yn Seiliedig ar Dystiolaeth (CEP) - ni pharhaodd yn hir iawn). Roedd CEDAR

yn llawer llai bryd hynny (efallai 4 neu 5 aelod o staff) ac yn dal i wneud rhai asesiadau technegol ar offer. Yn 2008, symudais ychydig o adeiladau i ffwrdd, i Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd, lle treuliais 4 blynedd yn ymchwilio i sut mae dyfeisiau meddygol yn cael eu defnyddio a'u mabwysiadu. Ailymunais â CEDAR yn 2012, wrth iddo ddechrau gweithio i NICE. Roedd hwn hefyd yn gydweithrediad â'r Ysgol Beirianeg, felly ailymunais fel aelod o staff y brifysgol.

Mae hyn i gyd yn golygu mai fi yw'r aelod o staff sydd wedi gwasanaethu hiraf yn CEDAR ac rydw i wedi gweithio ar y rhan fwyaf o fathau o brosiectau: adolygiadau systematig, modelu economaidd, addysgu, ymchwil fasnachol, ac (yn fwyaf diweddar) cynllunio a rheoli treialon clinigol.

Beth yw eich hoff ran o'ch swydd?

Y bobl. A'r cacennau. A'r rhiwbob a chynnyrch arall y mae pobl yn ei ddod i mewn gyda nhw. Rwy'n arbennig o hoff o dasgau technegol, rhesymegol, fel creu neu ddadansoddi taenlen Excel, rhaglennu neu lanhau data.

Dewiswch archbŵr?

Y gallu i wneud i bobl weld pethau o safbwynt rhywun arall, am gyfnod byr yn unig. Dw i'n meddwl bod camddealltwriaethau, rhagdybiaethau a rhagfarn yn achosi llawer o broblemau. Neu Lygaid Laser. Byddai llygaid laser yn dda (ond dim ond pe gallwn eu diffodd fel Homelander o The Boys, yn hytrach na'u cael ymlaen drwy'r amser, fel Cyclops o The Avengers).

Pe gallech chi gael 'arbenigwr gwadd' i ymuno â'r tîm am ddiwrnod, pwy fydddech chi'n ei ddewis?

Yr Athro Syr David Spiegelhalter neu'r Athro Carl Heneghan, gan eu bod yn gyfathrebwyr rhagorol am ystadegau a thystiolaeth. Clywais i nhw lawer ar y radio yn ystod COVID ac ar bethau fel More or Less (BBC Radio 4).



Os oes gennych gynnig ymchwil ac yr hoffech siarad â'n tîm, cysylltwch â ni neu llenwch ein [ffurflen](#) gais am gefnogaeth

Ewch i'n gwefan:

